Cyllid & Tollau EF

# Awdurdodi eich asiant

Diweddarwyd y ffurflen hon ym mis Ebrill 2024.

**Darllenwch y Nodiadau ar dudalen 3 cyn llenwi'r awdurdod hwn**
Os nad oes gennych asiant ond hoffech i rywun arall gyfathrebu â CThEF ar eich rhan, dilynwch yr arweiniad yn www.gov.uk/appoint-tax-agent

Mae'r ffurflen hon yn cymryd lle unrhyw awdurdod blaenorol a roddwyd i CThEF.

Gall CThEF gysylltu â chi yn y dyfodol i ail-awdurdodi'ch perthynas â'ch asiant er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU). I gael rhagor o fanylion am yr hyn y bydd gan eich asiant fynediad ato, dilynwch yr arweiniad yn www.gov.uk/government/publications/tax-agents-and-advisers-authorising-your-agent-64-8.cy

**I newid eich asiant neu i dynnu'ch caniatâd yn ôl**
Dilynwch yr arweiniad yn www.gov.uk/guidance/change-or-remove-your-tax-agents-authorisation

**Asiantau lluosog**
Os oes gennych fwy nag un asiant (er enghraifft, un yn gweithredu ar ran y cynllun TWE ac un arall ar ran Treth Gorfforaeth), llenwch un o'r ffurflenni hyn ar gyfer pob asiant.

| |
|---|
| Rwyf i, (printiwch eich enw) |
| o (enw'r busnes, cwmni neu ymddiriedolaeth os yw'n gymwys) |
| |
| yn awdurdodi CThEF i ddatgelu gwybodaeth i (enw busnes yr asiant) |
| |

Rhowch eich manylion personol neu swyddfa gofrestredig y cwmni yma

| |
|---|
| Cyfeiriad |
| |
| |
| Cod post |
| Rhif ffôn |

| |
|---|
| Rwy'n cadarnhau bod yr asiant enwebedig wedi cytuno i weithredu ar fy rhan, a bod yr awdurdodiad yn gywir ac yn gyflawn. Mae'r awdurdodiad hwn wedi'i gyfyngu i'r materion a ddangosir ar y ffurflen hon |
| Llofnod |
| Dyddiad |

Rhowch fanylion eich asiant yma

| |
|---|
| Cyfeiriad |
| |
| |
| Cod post |
| Rhif ffôn |
| Cod asiant (Hunanasesiad) |
| Cod asiant (Treth Gorfforaeth) |
| Cyfeirnod y cleient |

**Hunanasesiad** ☐ Os byddwch yn ticio'r blwch hwn,mae'n rhaid i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol (NINO) a/neu eich cyfeirnod Treth Unigryw (UTR)

**Partneriaeth** ☐ Os byddwch yn ticio'r blwch hwn, mae'n rhaid i chi roi eich cyfeirnod Treth Unigryw (UTR)

Bydd eich asiant yn gallu cael at eich gwybodaeth Hunanasesiad a Phartneriaeth fel eich incwm, treth, yswiriant gwladol, pensiwn yn ogystal â'ch gwybodaeth bersonol ac ariannol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad

**Rhif Yswiriant Gwladol**

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

**Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) os yw'n gymwys**

☐☐☐☐☐ ☐☐☐☐☐

Os nad oes UTR wedi'i anfon eto, ticiwch yma ☐

Os ydych yn drethdalwr Hunanasesiad, byddwn yn anfon eich Datganiad o Gyfrif atoch chi, ond os hoffechi ni ei anfon at eich asiant yn lle hynny, ticiwch yma ☐

Eich cyfrifoldeb chi yw talu unrhyw swm sy'n ddyledus.

**Ymddiriedolaeth** ☐

Bydd eich asiant yn gallu cael at eich gwybodaeth bersonol ac ariannol ar ran eich ymddiriedolaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/ymddiriedolaethau-trethi

**Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) os yw'n gymwys**

☐☐☐☐☐ ☐☐☐☐☐

**Talu Wrth Ennill (TWE) Unigolyn** ☐

Bydd gan eich asiant fynediad at eich gwybodaeth TWE fel eich incwm, treth, yswiriant gwladol, pensiwn yn ogystal â'ch gwybodaeth bersonol ac ariannol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/topic/personal-tax/income-tax

**Rhif Yswiriant Gwladol**

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

CLIRIO'R FFURFLEN

**Treth Gorfforaeth** ☐

Bydd gan eich asiant fynediad at wybodaeth eich cwmni a'ch gwybodaeth ariannol a bydd yn gallu diweddaru manylion cyfathrebu a chyswllt y cwmni. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/topic/business-tax/corporation-tax

**Rhif Cofrestru'r Cwmni**

**Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr y Cwmni**

**Credydau treth** ☐

Bydd eich asiant yn gallu cael at eich gwybodaeth bersonol ac ariannol sy'n ymwneud â'ch hawliad am Gredyd Treth. Gall weithredu ar eich rhan ond ni all gael taliadau. Bydd gohebiaeth yn dal i gael ei hanfon atoch. Ar gyfer ceisiadau ar y cyd am gredyd treth, mae angen i'r ddau hawliwr lofnodi'r awdurdod hwn er mwyn i CThEF ddelio â'ch asiant. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/taxcredits

**Rhif Yswiriant Gwladol**

Os oes gennych hawliad ar y cyd am Gredyd Treth a bod yr hawliwr arall am i CThEF ddelio â'r asiant hwn, mae'n rhaid iddo roi ei enw a'i lofnod yma

**Enw'r hawliwr ar y cyd**

**Rhif Yswiriant Gwladol yr hawliwr ar y cyd**

**Llofnod yr hawliwr ar y cyd**

**TAW** ☐

Sylwer - os ydych wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Troi Treth yn Ddigidol ar gyfer TAW, ni ellir defnyddio'r ffurflen hon i awdurdodi asiant i reoli'ch gwasanaethau Troi Treth yn Ddigidol.

Byddwn yn parhau i anfon gohebiaeth atoch chi yn hytrach nag at eich asiant, ond gallwn ddelio â'ch asiant trwy lythyr neu dros y ffôn ynghylch materion penodol.

Os yw'ch asiant am gyflwyno Ffurflenni TAW ar-lein ar eich rhan, bydd angen i chi ei awdurdodi drwy'ch cyfrif treth busnes neu ofyn i'ch asiant ddechrau awdurdodiad drwy ei wasanaethau digidol. Mae'n bosibl y byddwch yn cael llythyr yn cynnwys PIN y bydd angen i chi ei drosglwyddo i'ch asiant i gwblhau'r awdurdodiad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/topic/business-tax/vat

**Rhif Cofrestru TAW**

Os nad ydych wedi cofrestru eto, ticiwch yma ☐

**TAW y Cynllun Adeiladwyr Tai DIY** ☐

Bydd eich asiant yn gallu gweithredu ar eich rhan i gyflwyno'r ffurflen hawlio, darparu gwybodaeth a rhoi'r dogfennau priodol ar gyfer hawlio TAW o dan y Cynllun Adeiladwyr Tai DIY. Bydd unrhyw ad-daliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i chi. I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/collections/vat-refunds-using-the-diy-housebuilder-scheme

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr wybodaeth a roddwyd mewn cysylltiad â'ch hawliad yn gywir ac y gyflawn.

**Rhif Yswiriant Gwladol**

**Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)** ☐

Bydd gan eich asiant fynediad at eich Ffurflenni Treth, incwm isgontractwyr a didyniadau.

I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/what-is-the-construction-industry-scheme

**Cyfeirnod CIS**

**Cyfeirnod TWE**

/

**Dynodydd Porth y Llywodraeth ar gyfer yr Asiant**
(sy'n ofynnol ar gyfer mynediad ar-lein)

**Cod ID yr Asiant ar gyfer TWE**

Dewiswch isod sut yr hoffech i'ch asiant gael yr wybodaeth, gallwch dicio mwy nag un blwch.

Rwy'n gontractwr yn y CIS ac yn awdurdodi'r asiant a enwir uchod i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein y CIS i gael gwybodaeth dros y rhyngrwyd gan CThEF ar fy rhan ac rwyf wedi rhoi fy manylion ID Porth y Llywodraeth ar gyfer fy Asiant a chod yr Asiant ar gyfer TWE. ☐

Rwy'n gontractwr yn y CIS ac yn awdurdodi'r asiant a enwir uchod i gael gwybodaeth dros y ffôn ac yn ysgrifenedig gan CThEF ar fy rhan. ☐

**TWE Cyflogwyr** ☐

Sylwer: Dylech dim ond llenwi'r adran hon os ydych yn gyflogwr sy'n gweithredu TWE.

Bydd gan eich asiant fynediad at wybodaeth bersonol ac ariannol eich cyflogeion.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/paye

**Cyfeirnod TWE**

/

**Dynodydd Porth y Llywodraeth ar gyfer yr Asiant**
(sy'n ofynnol ar gyfer mynediad ar-lein)

**Cod ID yr Asiant ar gyfer TWE**

Dewiswch isod sut yr hoffech i'ch asiant gael yr wybodaeth, gallwch dicio mwy nag un blwch.

Rwy'n awdurdodi'r asiant a enwir uchod i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein TWE i gael gwybodaeth dros y rhyngrwyd gan CThEF ar fy rhan ac rwyf wedi rhoi fy manylion ID Porth y Llywodraeth ar gyfer yr Asiant a chod ID yr Asiant ar gyfer TWE. ☐

Rwy'n awdurdodi'r asiant a enwir uchod i gael gwybodaeth dros y ffôn ac yn ysgrifenedig gan CThEF ar fy rhan. ☐

# Nodiadau

## Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae CThEF wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys gweithredoedd o dan y canlynol:

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau (CRCA) 2005

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

- www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you.cy
- IDG40120 - Rhannu gwybodaeth y tu allan i CThEF: rhwymedigaethau cyfreithiol: datgeliad cyfreithlon o dan adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/information-disclosure-guide/idg40120

Mae'r awdurdod hwn yn ein caniatáu i gyfnewid, diwygio a datgelu gwybodaeth yn eich cylch gyda'ch asiant, ac i ddelio ag ef ynghylch materion y mae CThEF yn gyfrifol amdanynt, fel y nodir ar y ffurflen hon.

Nid yw CThEF yn gyfrifol am sut mae'ch asiant yn defnyddio neu'n cadw'ch gwybodaeth bersonol. Dylech gysylltu â'ch asiant yn uniongyrchol os ydych am gael rhagor o wybodaeth.

## Pwy ddylai lofnodi'r ffurflen hon

| Os yw'r awdurdod ar gyfer | Pwy sy'n llofnodi'r ffurflen |
|---|---|
| Chi, fel unigolyn | Chi, ar gyfer eich materion treth personol |
| Cwmni | Ysgrifennydd y cwmni neu swyddog cyfrifol arall y cwmni |
| Partneriaeth | Y partner sy'n gyfrifol am faterion treth y bartneriaeth. Mae ond yn berthnasol i'r bartneriaeth. Mae angen i bartneriaid unigol lofnodi awdurdod ar wahân ar gyfer eu materion treth eu hunain |
| Ymddiriedolaeth | Nodwch un neu fwy o'r ymddiriedolwyr |

## Dynodydd Porth y Llywodraeth ar gyfer yr Asiant

Gall asiantau ddod o hyd i'w dynodydd Porth y Llywodraeth ar gyfer yr Asiant drwy fewngofnodi i wasanaethau ar-lein CThEF ar gyfer asiantau a dewis 'Awdurdodi cleient' o'r ddewislen ar y chwith. Bydd y dynodydd yn ymddangos ar y sgrin nesaf o dan y teitl 'Dynodydd asiant'.

## Opsiynau eraill i Awdurdodi Asiantau

**Dros dro**

Defnyddiwch ffurflen COMP1 i awdurdodi asiant dros dro i weithredu ar eich rhan os ydych yn cael gwiriad cydymffurfio wedi'i gynnal. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/guidance/tax-adviser-authorisation-for-compliance-checks

**Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel**

Defnyddiwch ffurflen CH995 i awdurdodi ymgynghorydd treth penodedig i ddelio â'ch materion Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel. I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/child-benefit-authorise-a-tax-adviser-for-high-income-child-benefit-charge-matters-ch995.cy

**Credydau treth a Budd-dal Plant**

Defnyddiwch ffurflen TC689 i awdurdodi rhywun i weithredu ar eich rhan ar gyfer materion Credyd Treth a Budd-dal Plant. I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/tax-credits-and-child-benefit-allow-someone-else-to-act-for-you-tc689.cy

## Gwasanaethau Digidol

Gallwch hefyd awdurdodi'ch asiant i weithredu ar eich rhan ar-lein gan ddefnyddio ein gwasanaethau digidol. I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/client-authorisation-an-overview

## Ble i anfon y ffurflen hon

Anfonwch dudalennau 1 a 2 yn unig i CThEF, peidiwch ag anfon tudalen 3. Cadwch dudalen 3 ar gyfer eich cofnodion.

Pan fyddwch wedi cwblhau tudalennau 1 a 2 o'r ffurflen hon, anfonwch nhw i'r cyfeiriad canlynol:

Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF

HMRC

BX9 1ST

O dan rai amgylchiadau, cewch ymateb yn gynt os byddwch yn anfon y ffurflen at gyfeiriad arall. Os yw'r ffurflen hon:

- ynghlwm wrth ohebiaeth arall, anfonwch hi i swyddfa briodol CThEF
- yn ymwneud â Materion Treth Gorfforaeth yn unig, anfonwch hi i'r swyddfa CThEF sy'n delio â'r cwmni
- ar gyfer cwsmer Gwerth Net Uchel, anfonwch hi i'r Uned Gwerth Net Uchel briodol
- ynghlwm wrth gais am Gofrestriad TAW, anfonwch hi i'r Uned Gofrestru TAW briodol
- yn destun cais arbennig gan swyddfa CThEF, anfonwch hi'n ôl i'r swyddfa